**ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU**

**23 Mehefin 2023**

| | |
|---|---|
| TEITL: | Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru – Diweddariad ynghylch Cynnydd |
| AWDUR: | Louise Grove-White, Rheolwr Dros Dro y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol<br>Louise.grove-white@powys.gov.uk |

## 1. Diben yr adroddiad

1.1. Rhoi i Aelodau Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ddiweddariad ynghylch cynnydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru.

1.1. Rhoi i aelodau Grŵp Rheoli Tyfu Canolbarth Cymru ddiweddariad ynghylch cynnydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, gan gynnwys adroddiad ynghylch Digwyddiad y Gwanwyn y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol lle lansiwyd y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3 blynedd, cynnydd cyfarfod cyntaf y grŵp clwstwr ar gyfer busnesau, adborth o'r grwpiau clwstwr sydd wedi ennill eu plwyf, cyfarfod nesaf Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, cyhoeddi drafft cyntaf gweithgareddau Atodlen 2 Llywodraeth Cymru ar gyfer y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, a recriwtio Rheolwr newydd i'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

## 2. Penderfyniad a geisir.

2.1. Nodi'r cynnydd hyd yn hyn.

## 3. Digwyddiad y Gwanwyn y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a lansio'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3 blynedd a'r Cynllun Gweithredu

3.1. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn dal i ddarparu safbwynt rhanbarthol er mwyn llywio strategaethau ynghylch sgiliau sector ar lefel Cymru a lefel y DU ac er mwyn darparu data sylfaenol ar gyfer cynllunio addysg bellach, gan ddefnyddio gwybodaeth a arweinir gan gyflogwyr ac anghenion y farchnad lafur.

3.2. Cafodd Digwyddiad y Gwanwyn y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ei gynnal yng Ngwesty'r Metropole yn Llandrindod ar 23 Mawrth, a'i fwriad oedd ymgysylltu â busnesau i nodi eu blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi rhanbarthol er mwyn hybu swyddi a thwf yn rhanbarth Canolbarth Cymru a deall y rhwystrau o ran sgiliau a recriwtio.

3.3. Cafwyd areithiau croesawu gan Arweinydd Cyngor Sir Powys, y Cynghorydd James Gibson-Watt, Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, y Cynghorydd Alun Williams, a Chadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Emma Thomas.

3.4. Yn rhan o agenda'r diwrnod ymunodd Vaughan Gething AS â'r digwyddiad, drwy fideo a oedd wedi'i recordio ymlaen llaw, i lansio'n swyddogol y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3 blynedd a'r Cynllun Gweithredu.

3.5. Arweiniodd Tom Yeo, Arweinydd Ynni Tyfu Canolbarth Cymru, a Grant Thomas, Dadansoddwr Gwariant Caffael a Marchnadoedd, Cyngor Sir Powys, gyflwyniadau addysgiadol ynghylch Sero Net a manteision amgylcheddol ac economaidd cyd-fynd ag adroddiad Llywodraeth Cymru ynghylch Cymru Sero Net.

3.6. Roedd 61 o gynrychiolwyr o 17 o sefydliadau'n bresennol yn y digwyddiad, a chyfrannodd pob un ohonynt i'r trafodaethau bord gron rhyngweithiol er mwyn deall y rhwystrau o ran sgiliau a recriwtio, a hwyluswyd gan Alun Jones (cyn-Brif Weithredwr Menter a Busnes).

3.7. Cafodd busnesau eu gwahodd i gofrestru eu diddordeb mewn mynychu cyfarfod cyntaf y grŵp clwstwr ar gyfer busnesau, ymuno â rhestr bostio Tyfu Canolbarth Cymru a lawrlwytho copi o'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3 blynedd a'r Cynllun Gweithredu.

**Penderfyniad a geisir.**

Nodi'r cynnydd hyd yn hyn.

## 4. Cyfarfod y Grŵp Clwstwr ar gyfer Busnesau

4.1. Cafodd cyfarfod cyntaf Grŵp Clwstwr ar gyfer Busnesau y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ei gynnal ar 15/5/23 yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan Emma Thomas (Cadeirydd Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol) a oedd yn cynrychioli Aber Instruments. Mae Cylch Gorchwyl yn cael ei ddrafftio, a bydd yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

4.2. Bu'r gweithgarwch cyfathrebu ynghylch yr alwad agored ar gyfer cyfarfod cyntaf y grŵp clwstwr yn canolbwyntio ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar dargedu rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol er mwyn dosbarthu'r gwahoddiad drwy eu rhwydweithiau nhw o fusnesau.

4.3. Roedd 18 busnes o wahanol faint yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf ac roeddent yn cynrychioli nifer o sectorau blaenoriaethol gan gynnwys y sector digidol, y sector twristiaeth, y sector ynni, y sector gweithgynhyrchu, y sector ymchwil ac arloesi a'r sector bwyd a diod.

4.4. Roedd y negeseuon allweddol yn dilyn y digwyddiad hwn yn cyd-fynd â barn busnesau yn Nigwyddiad y Gwanwyn – gwnaethant nodi problemau'n ymwneud â recriwtio a chadw staff, cysylltedd a natur wledig y rhanbarth, a diffyg darpariaeth briodol a hyblyg o ran hyfforddiant ar draws y rhanbarth. Bydd yr eitemau a fydd ar agendâu'r dyfodol yn mynd i'r afael â'r problemau hyn er mwyn cael rhagor o wybodaeth a arweinir gan gyflogwyr, a fydd yn fodd i oleuo'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ymhellach ynghylch y rhwystrau y mae busnesau'n eu hwynebu ar draws y rhanbarth.

4.5. Bydd cyfarfod nesaf y grŵp clwstwr ar gyfer busnesau'n cael ei gynnal ar 4 Gorffennaf yn y Drenewydd.

4.6. Bydd is-grwpiau'n cael eu ffurfio yn y dyfodol ar gyfer y grŵp clwstwr hwn er mwyn canolbwyntio ar y sector digidol a'r sector sero net yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (Atodlen 2). Bydd Cadeirydd yn cael ei enwebu o blith un o'r sefydliadau sy'n aelodau o bob grŵp. Cyfrifoldeb y Cadeiryddion fydd adrodd yn ôl i Fwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol pan fo'n briodol.

**Penderfyniad a geisir.**

Nodi'r cynnydd hyd yn hyn.

## 5. Grwpiau Clwstwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

5.1. Cymerodd y Grŵp Clwstwr ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus, a gadeiriwyd gan Paul Bradshaw (Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyngor Sir Powys), ran mewn gweithdy bord gron ar 17/5/23 a fu'n canolbwyntio ar sut y gall y grŵp gynllunio gweithlu ar y cyd er mwyn deall yn well y gofynion o ran recriwtio a chadw staff a'r gofynion o ran sgiliau mewn gwasanaethau cyhoeddus ar draws y rhanbarth. Mae gweithgor wedi'i sefydlu i ddatblygu templed y bydd pob aelod yn ei lenwi er mwyn helpu'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i adnabod yr anghenion. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chrynhoi a'i dadansoddi, a phan fydd yn gyflawn bydd yn cyfrannu i sgyrsiau â'r Grŵp Clwstwr ar gyfer Darparwyr Hyfforddiant.

5.2. Cyfarfu'r Grŵp Clwstwr ar gyfer Darparwyr Hyfforddiant, a gadeiriwyd gan Catherine Lewis, Is-bennaeth ac Is-brif Weithredwr Grŵp NPTC, ar 24/5/23 a chanolbwyntiwyd ar gwestiynau a oedd yn codi o Gynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net Llywodraeth Cymru ac a oedd yn cyd-fynd â gweithgareddau Atodlen 2 Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Dyma'r negeseuon allweddol y mae angen eu rhannu â Llywodraeth Cymru – mae cyflogwyr yn dal i'w chael yn anodd deall terminoleg Sero Net ac roedd angen i'r Llywodraeth sicrhau bod Sero Net yn uwch i fyny ar yr agenda; mae darparwyr hyfforddiant yn gweithio ar eu darpariaeth ar gyfer sgiliau gwyrdd ond y farn gyffredinol oedd y byddai cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yn elwa o gael un ffynhonnell wybodaeth (ar-lein ac mewn cyhoeddiadau hyrwyddo) ar gyfer yr holl ddarpariaeth ar gyfer sgiliau gwyrdd ar draws y rhanbarth.

**Penderfyniad a geisir.**

Nodi’r cynnydd hyd yn hyn.

## 6. Cyfarfod Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

6.1. Bwriedir cynnal cyfarfod nesaf Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar 5/6/23.

6.2. Bydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a’r grwpiau clwstwr yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Bwrdd am weithgarwch hyd yma. Bydd Heather Davidson, Llywodraeth Cymru, sef y Pennaeth Polisi Sgiliau Sero Net, yn siarad am y cyfeiriad o ran polisi yn dilyn cyhoeddi Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net Cymru.

**Penderfyniad a geisir.**

Nodi’r cynnydd hyd yn hyn.

## 7. Gweithgareddau Atodlen 2 Llywodraeth Cymru

7.1. Mae copi drafft o’r gweithgareddau Atodlen 2 ar gyfer 2023/24 wedi’i ddosbarthu i bob un o’r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

7.2. Mae cyfarfod wedi’i drefnu ar gyfer 6/6/23 i Reolwyr a Chadeiryddion y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol er mwyn trafod y gofyniad o ran Atodlen 2 yn fwy manwl. Bydd y ddogfen yn cael ei dosbarthu fel y bo’n briodol pan fydd fersiwn terfynol ar gael ohoni.

**Penderfyniad a geisir.**

Nodi’r cynnydd hyd yn hyn.

## 8. Cyfarfod Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (5/6/23)

## 9. Recriwtio

9.1. Mae Aggie Caesar-Homden wedi symud i’w swydd newydd yng Nghyngor Sir Powys erbyn hyn. Mae Louise Grove-White, Swyddog Prosiect y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar hyn o bryd, wedi dechrau gweithio fel Rheolwr Dros Dro y Bartneriaeth tan ddiwedd mis Mehefin.

9.2. Mae Rheolwr newydd wedi’i benodi i’r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a disgwylir y bydd yn ymuno â’r tîm ddechrau mis Gorffennaf.

**Penderfyniad a geisir.**

Nodi'r cynnydd hyd yn hyn.

## 10. Goblygiadau cyfreithiol

10.1. Nid oes goblygiadau cyfreithiol yn codi o'r adroddiad hwn.

## 11. Goblygiadau o ran adnoddau dynol

11.1. Nid oes goblygiadau o ran adnoddau dynol yn codi o'r adroddiad hwn.

## 12. Goblygiadau ariannol

12.1. Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

## 13. Atodiadau

13.1. Nid oes unrhyw atodiadau wedi'u clymu.